# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cod Gweinidogion Cymru
Hydref 2012

Mae'r papur hwn yn darparu braslun o'r Codau Gweinidogion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon; y wybodaeth y mae'n ofynnol i'r cyrff hynny ei chyhoeddi, a chrynodeb o'r gweithdrefnau sydd ar waith ym mhob gwlad unigol i ymdrin ag achosion honedig o dorri'r Cod, gan gynnwys gwybodaeth am waith penodi ac am rôl Cynghorwyr Annibynnol yn yr Alban a San Steffan.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:


**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



**Rhif ymholiad:** 12/2262

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Cod Gweinidogion Cymru

Hydref 2012

Owain Roberts

Rhif dogfen: 12/043

Gwasanaeth Ymchwil

# Crynodeb

Mae Codau Gweinidogion yn darparu canllawiau i Weinidogion ynghylch y modd y dylent weithredu a threfnu eu busnes er mwyn cynnal safonau penodol wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Caiff manylion yr ymddygiad a ddisgwylir gan Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol eu cynnwys yng Nghod Gweinidogion Cymru a gyhoeddir gan y Prif Weinidog, fel rheol yn fuan wedi Etholiad Cyffredinol yng Nghymru. Caiff Codau Gweinidogion tebyg eu cyhoeddi hefyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ynghylch ymddygiad eu Gweinidogion.

Diben y papur hwn yw darparu'r canlynol:

- braslun o'r Codau Gweinidogion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r cyrff hynny ei chyhoeddi;
- crynodeb o'r gweithdrefnau sydd ar waith ym mhob gwlad unigol i ymdrin ag achosion honedig o dorri'r Cod, gan gynnwys gwybodaeth am waith penodi ac am rôl Cynghorwyr Annibynnol yn yr Alban a San Steffan er mwyn ymdrin â honiadau o'r fath;
- manylion unrhyw alwadau diweddar ym mhob gwlad unigol am waith diwygio.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 4**

**2. Cod Gweinidogion Cymru ..... 5**

2.1. Rhan 1: Cod moeseg ar gyfer Gweinidogion ..... 5
2.2. Rhan 2: Canllawiau gweithdrefnol i'r Aelodau ..... 6
2.3. Gwybodaeth a gaiff ei chyhoeddi ..... 7
2.4. Galwadau am waith diwygio ..... 8

**3. Cod Gweinidogion y DU ..... 10**

3.1. Gwybodaeth a gaiff ei chyhoeddi ..... 10
3.2. Cynghorydd Annibynnol ar fuddiannau Gweinidogion ..... 11
3.3. Galwadau am waith diwygio ..... 13

**4. Cod Gweinidogion yr Alban ..... 15**

4.1. Gwybodaeth a gaiff ei chyhoeddi ..... 15
4.2. Cynghorwyr Annibynnol ar God Gweinidogion yr Alban ..... 16

**5. Cod Gweinidogion Gogledd Iwerddon ..... 17**

# Cod Gweinidogion Cymru

## 1. Cyflwyniad

Mae Codau Gweinidogion yn darparu canllawiau i Weinidogion ynghylch y modd y dylent weithredu a threfnu eu busnes er mwyn cynnal safonau penodol wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Mae'r Codau hyn yn amlinellu'r safonau o ran ymddygiad a ddisgwylir gan Weinidogion, ac maent yn nodi'r wybodaeth am gamau gweithredu Gweinidogion y mae'n rhaid i lywodraeth ei chyhoeddi.

Caiff canllawiau ynghylch yr ymddygiad a ddisgwylir gan Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol eu cynnwys yng **Nghod Gweinidogion Cymru** a gyhoeddir gan y Prif Weinidog, fel rheol yn fuan wedi Etholiad Cyffredinol yng Nghymru. Ceir **cod ymddygiad** ar wahân ar gyfer y 60 Aelod Cynulliad, a gyhoeddir ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Caiff Codau Gweinidogion tebyg eu cyhoeddi hefyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ynghylch ymddygiad eu Gweinidogion.

Er bod y Codau hyn yn debyg i'w gilydd, nid ydynt yn union yr un fath a cheir gwahaniaethau pwysig rhyngddynt, yn enwedig o safbwynt y wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi a'r modd yr ymdrinnir ag achosion honedig o dorri'r Cod.

O ganlyniad, diben y papur hwn yw cyflwyno braslun o gynnwys Cod Gweinidogion Cymru a'i gymharu â Chodau Gweinidogion eraill a gyhoeddwyd gan wahanol lywodraethau'r DU. Yn ogystal, mae'r papur yn crynhoi'r gweithdrefnau sydd ar waith ym mhob gwlad unigol i ymdrin ag achosion honedig o dorri'r Cod (gan gynnwys penodi Cynghorwyr Annibynnol i ymdrin ag achosion honedig o dorri'r Cod yn y DU a'r Alban) ynghyd â manylion unrhyw alwadau diweddar ym mhob gwlad unigol am waith diwygio.

## 2. Cod Gweinidogion Cymru

Cafodd y Cod Gweinidogion Cymru cyntaf ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2007 yn dilyn etholiadau i'r trydydd Cynulliad (2007-2011) ac ar ôl i gorff corfforaethol y Cynulliad gael ei wahanu'n ffurfiol yn ganghennau deddfwriaethol a gweithredol, fel a oedd yn ofynnol gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.[1] Cyn hynny, pan oedd cyfansoddiad y Cynulliad yn golygu mai un corff corfforaethol ydoedd, roedd Cod ar gyfer Gweinidogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'u gelwid ar y pryd) wedi ei gyhoeddi yn 2002. Cafodd y **Cod Gweinidogion Cymru** presennol ei gyhoeddi gan Brif Weinidog Cymru ym mis Gorffennaf 2011, yn dilyn etholiadau i'r pedwerydd Cynulliad ym mis Mai yr un flwyddyn. Yn yr un modd â Chod Gweinidogion y DU a'r Alban, Prif Weinidog Cymru sy'n gyfrifol am God Cymru a rhaid iddo sicrhau bod pob Gweinidog yn cydymffurfio ag ef.[2]

Gan nad yw'r Cod yn ddogfen statudol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, nid oes dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r Cod gerbron y Cynulliad, ac nid yw'n ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan Aelodau'r Cynulliad cyn iddo ddod i rym. Yn wahanol i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU, nid yw Prif Weinidog Cymru hyd yma wedi penodi Cynghorwyr Annibynnol ar fuddiannau Gweinidogion i ymchwilio i achosion honedig o dorri Cod Gweinidogion Cymru.

Mae'r Cod wedi ei rannu'n ddwy ran.

### *2.1. Rhan 1: Cod moeseg ar gyfer Gweinidogion*

Ymdrinnir â'r meysydd canlynol yng nghyswllt y cod moeseg ar gyfer Gweinidogion Cymru:

**Ymddygiad Gweinidogion:** Mae'r Cod yn disgwyl i Weinidogion ymddwyn yn unol â'r safonau uchaf o ran ymddygiad cyfansoddiadol a phersonol, ac yn benodol disgwylir iddynt barchu **Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus**.[3]

**Gweinidogion a'u cyfrifoldebau:** Mae'r adran hon yn nodi mai Prif Weinidog Cymru sy'n gyfrifol am drefniadaeth a strwythur cyffredinol Llywodraeth Cymru, ac mae'n mynnu y dylid hysbysu swyddfa'r Prif Weinidog ynghylch y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychir gan bob Gweinidog arall. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys canllawiau ynghylch **gwaith penodi a swyddogaethau cynghorwyr arbennig** a chynghorwyr di-dâl, a chanllawiau ynghylch unrhyw benodiad arall a wneir gan y Prif Weinidog.

**Gweinidogion a gweision sifil:** Mae'r adran hon yn egluro'r modd y dylai Gweinidogion a gweision sifil ryngweithio ac ymgysylltu â'i gilydd. Mae'n ymdrin â

[1] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (pennod 32)
[2] Llywodraeth Cymru, ***Cod Gweinidogion Cymru***, Gorffennaf 2011, paragraff 1.3
[3] Yr egwyddorion yw anhunanoldeb; uniondeb; gwrthrychedd; atebolrwydd; bod yn agored; gonestrwydd ac arweinyddiaeth

rôl gweision sifil mewn cyfarfodydd a digwyddiadau pleidiau gwleidyddol; **cyswllt Gweinidogion â grwpiau buddiant allanol (gan gynnwys lobïwyr)**; Gweinidogion yn derbyn deisebau; a rôl yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gweinidogion Cymru.

**Buddiannau Gweinidogion o ran eu hetholaeth a'u plaid:** Mae'r adran hon yn rhoi sylw i'r modd y dylai Gweinidogion ymdrin â'u buddiannau o ran eu hetholaeth a'u plaid wleidyddol. Yn benodol, mae'n nodi na ddylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio eiddo neu gyfleusterau Llywodraeth Cymru wrth ymdrin â gwaith sy'n ymwneud â'u hetholaeth. Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin â **pherthynas Gweinidogion Cymru ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**; ymwneud Gweinidogion wrth arwain dirprwyaethau a chyflwyno sylwadau (gan gynnwys sylwadau mewn achosion sy'n ymwneud â chynllunio); ac ymwneud Gweinidogion â phenderfyniadau nad ydynt yn ymwneud â chynllunio ac wrth gefnogi penderfyniad ynghylch dyfarnu arian y Loteri.

**Buddiannau preifat Gweinidogion:** Mae'r adran hon yn egluro'r camau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu cymryd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw **achosion o wrthdaro o ran buddiannau** yn codi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Mae camau o'r fath yn cynnwys mynnu bod pob Gweinidog yn darparu rhestr ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Parhaol o'r holl fuddiannau y gellid ystyried eu bod yn achosi gwrthdaro. Mae'r Cod yn nodi bod buddiannau o'r fath yn cynnwys buddiannau ariannol; swyddi cyfarwyddwyr a chyfranddaliadau; partneriaethau neu fuddiannau eraill o ran busnes; eiddo a gaiff ei osod ar rent neu ar brydles ac unrhyw eiddo y gallai Gweinidogion fod yn ei rentu neu'n ei gymryd ar brydles ar delerau ffafriol; unrhyw nawdd gan Undeb Llafur; penodiadau cyhoeddus; cysylltiadau ag elusennau; a manylion unrhyw anghydfod â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu ymchwiliadau gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Yn ogystal, mae'r adran hon yn amlinellu'r rheolau sy'n berthnasol i Weinidogion o safbwynt unrhyw anrhydeddau gan wledydd tramor; cysylltiadau â chyrff nad ydynt yn gyrff cyhoeddus; aelodaeth o undebau llafur; rhoddion a lletygarwch a dderbynnir; unrhyw letygarwch a ddarperir gan Weinidogion; enwebiadau ar gyfer gwobrau a dyfarniadau; geirdaon ar gyfer penodiadau cyhoeddus; a phenodiadau a dderbynnir ar ôl gadael swydd Gweinidog.

## *2.2. Rhan 2: Canllawiau gweithdrefnol i'r Aelodau*

Mae ail ran y Cod yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau Gweinidogion o ddydd i ddydd:

**Gweinidogion a'r Cabinet:** Mae'r adran hon yn egluro'r modd y caiff busnes y Cabinet ei gyflawni a rôl Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn y broses honno.

**Gweinidogion a'r Cynulliad:** Mae'r adran hon yn amlinellu'r modd y dylai Gweinidogion wneud datganiadau a chyhoeddiadau yn y Cynulliad (gan gynnwys wrth gyflwyno Biliau'r Cynulliad, penderfyniadau ariannol ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig). Mae'r adran hon hefyd yn gwahardd Gweinidogion rhag bod yn aelodau o grwpiau trawsbleidiol y Cynulliad, ac mae'n nodi'r modd y dylai Gweinidogion ymdrin â gwahoddiadau i ymddangos gerbron un o Bwyllgorau Dethol Senedd y DU.

**Gweinidogion a Chyfleu Polisi:** Mae'r adran hon yn egluro'r modd y dylai Gweinidogion wneud cyhoeddiadau ynghylch polisi a chyhoeddiadau eraill. Yn benodol, mae'r adran yn nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Weinidogion Cymru yng nghyswllt cynadleddau i'r wasg; gwaith cyhoeddi papurau ymgynghori; areithiau; darllediadau ar y radio, ar y teledu ac ar-lein; erthyglau yn y wasg; llyfrau a chyhoeddiadau pleidiau gwleidyddol. Mae'r adran hon hefyd yn egluro'r modd y dylai Gweinidogion gyflwyno cwynion am newyddiadurwyr, ac mae hefyd yn mynnu bod Gweinidogion yn ymwybodol o'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol** gan Awdurdod Ystadegau'r DU, a'r angen i gydymffurfio â'r darpariaethau a nodwyd yng *Ngorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009*[4] wrth wneud cyhoeddiadau'n ymwneud â gwybodaeth ystadegol.

**Ymweliadau gan Weinidogion:** Mae'r adran hon yn egluro'r rheolau sy'n ymwneud ag ymweliadau Gweinidogion o fewn y DU a thramor. Mae hefyd yn cynnwys manylion ynghylch y cyfyngiadau o ran costau teithio a chynhaliaeth a defnydd priodol o'r costau hynny; y defnydd a wneir o geir swyddogol; a'r modd y dylai Gweinidogion ymdrin â lletygarwch a rhoddion a gynigir iddynt yn ystod ymweliadau.

**Pensiynau Gweinidogion:** Mae'r adran hon yn darparu manylion y trefniadau pensiwn y gall Gweinidogion ymwneud â hwy.

## *2.3. Gwybodaeth a gaiff ei chyhoeddi*

Mae'r Cod yn mynnu bod y wybodaeth ganlynol yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru:

- Niferoedd, enwau a bandiau cyflog y **cynghorwyr arbennig** sydd gan Weinidogion Cymru, a chost eu cyflogau'n gyffredinol.
- Manylion buddiannau preifat yr Aelodau.
- Manylion y **rhoddion gwerth dros £260 y mae Gweinidogion wedi eu derbyn ar ran Llywodraeth Cymru**.

---

[4] ***Gorchymyn Gweld Ystadegau Swyddogol cyn eu Rhyddhau (Cymru) 2009*** (OS 2009/2818) (Cy. 244)

- Manylion holl **deithiau tramor Gweinidogion sy'n costio dros £500 y daith, ynghyd â chyfanswm cost ymweliadau tramor Gweinidogion**.[5]

## *2.4. Galwadau am waith diwygio*

Ar 19 Mehefin 2012, cafwyd y ddadl ganlynol rhwng arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams AC, a Phrif Weinidog Cymru ynghylch y Cod Gweinidogion:

> **Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, os gwneir honiad o gamymddwyn yn erbyn unrhyw un o'ch cyd-Weinidogion yn y Cabinet, pwy sy'n barnu a yw'r aelod o'r Cabinet wedi torri'r cod gweinidogol?
>
> **Y Prif Weinidog:** Mater i mi yw hynny.
>
> **Kirsty Williams:** Yn yr Alban, mae panel o gyn lywyddion yn cynghori ar y ffordd y gweithredir y cod gweinidogol. Yn San Steffan, mae'r cynghorydd annibynnol ar fuddiannau Gweinidogion yn rhoi cyngor i Brif Weinidog y DU. Y comisiynydd safonau sy'n ymchwilio i honiadau o gamymddwyn gan Aelod o'r Cynulliad, a chyfeirir cynghorwyr lleol at eu bwrdd safonau. Caiff Aelodau Seneddol, wrth gwrs, os cânt eu cyhuddo o gamymddwyn, eu dal yn atebol gan y Comisiynydd Safonau Seneddol. Beth sy'n gwneud Llywodraeth Cymru mor arbennig fel y gall osgoi'r ffurf bwysig hon ar graffu democrataidd?
>
> **Y Prif Weinidog:** Mae Gweinidogion yn atebol i mi ac yr wyf finnau, yn fy nhro, yn atebol i bobl Cymru.
>
> **Kirsty Williams:** ... Gofynnaf ichi eto: beth sy'n gwneud Llywodraeth Cymru mor arbennig fel nad oes angen iddi gymryd y camau y mae pob gweinyddiaeth arall wedi'u cymryd i sicrhau annibyniaeth wrth farnu ar y cod gweinidogol? Rydych wedi dweud yn aml yn y Siambr eich bod am i'r Llywodraeth hon fod mor agored, tryloyw ac atebol â phosibl. A wnewch ymrwymo heddiw, yn y Siambr, i sefydlu cynghorydd annibynnol ar y cod gweinidogol, yn union fel y mae pob lefel arall o lywodraeth wedi gwneud?
>
> **Y Prif Weinidog:** Rwyf bob amser yn cael cyngor os gwneir cwyn am Weinidog ond, yn y pen draw, mae'r Gweinidogion yn atebol i mi ac yr wyf finnau, yn fy nhro, yn atebol i etholwyr Cymru. Gwn nad oes gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ffydd ym mhobl Cymru oherwydd gwelsom hynny yr wythnos diwethaf yn y ffordd anffodus y pleidleisodd ei phlaid yn y ddadl ar y Papur Gwyrdd, pan oedd o'r farn mai'r Democratiaid Rhyddfrydol sy'n gwybod beth sydd orau i bobl Cymru ac nid pobl Cymru eu hunain.[6]

---

[5] Llywodraeth Cymru, *Y Cod Gweinidogion*, 23 Awst 2011
[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn*, 19 Mehefin 2012

Yn ogystal, cafwyd sylwadau ynghylch Cod Gweinidogion Cymru a thryloywder o safbwynt materion cyhoeddus yng Nghymru ar 23 Awst 2012 gan gadeirydd Public Affairs Cymru, Dewi Knight, mewn erthygl ar wefan Click on Wales:

> The Ministerial Code for UK Government ministers expects "details of Ministers' external meetings' to be published 'at least quarterly" … The Scottish ministerial code requires a "monthly list of engagements carried out by all Ministers is published three months in arrears" … It may be surprising to know but the Welsh Government ministerial code doesn't require this information to be published …
>
> Much of the commercial public affairs industry already publishes detailed information about fee-paying clients and staff. Public Affairs Cymru, the national membership body for public affairs professionals in Wales is campaigning for 'made in Wales' arrangements to promote transparency in public affairs. This includes changes to the Ministerial Code, a stronger relationship between our members' Code of Conduct and AMs Code of Conduct and clearer rules and guidance on cross-party groups.[7]

---

[7] Click on Wales, ***Call for change to Welsh private ministerial meetings***, 23 Awst 2012

## 3. Cod Gweinidogion y DU

Cafodd y Cod Gweinidogion cyntaf i aelodau Llywodraeth y DU ei gyhoeddi yn 1997 gan y Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Tony Blair AS. Cyn hynny, roedd ymddygiad Gweinidogion wedi'i egluro mewn nodyn cyfarwyddyd i Weinidogion, "Questions of procedure for Ministers", a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1992.[8] Er bod dadl hirfaith wedi bod ynghylch a ddylai Cod Gweinidogion y DU gael ei ategu gan statud, nid oes unrhyw sail gyfreithiol i'r Cod cyfredol ac mae'n parhau'n God anstatudol.

Cafodd y **Cod Gweinidogion** cyfredol ei gyhoeddi gan y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus David Cameron AS, yn fuan ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU yn 2010. Mae'n egluro cyfres o reolau a safonau y mae disgwyl i Weinidogion yn Llywodraeth y DU gydymffurfio â hwy. Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol am y Cod a'r modd y caiff ei weithredu, ac fel pennaeth Llywodraeth y DU, ef yw'r un i farnu yn y pen draw beth yw'r safonau o ran ymddygiad a ddisgwylir gan Weinidog a beth yw'r canlyniadau priodol pan eir yn groes i'r safonau hynny.[9]

Mae'r Cod yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Egwyddorion cyffredinol ynghylch ymddygiad Gweinidogion;
- Y modd y dylai Gweinidogion ymddwyn yng nghyswllt y canlynol:
    - cyflawni busnes y llywodraeth;
    - penodiadau (gan gynnwys penodi cynghorwyr arbennig);
    - rhyngweithio ag adrannau'r llywodraeth;
    - rhyngweithio â gweision sifil;
    - buddiannau'n ymwneud â'u hetholaeth a'u plaid wleidyddol;
    - eu buddiannau preifat;
    - cyflwyno penderfyniadau a chyhoeddiadau ynghylch polisi;
    - ymdrin â'r ddau dŷ yn Senedd y DU;
- Rheolau'n ymwneud â threfniadau teithio Gweinidogion.

### *3.1. Gwybodaeth a gaiff ei chyhoeddi*

Mae'r Cod yn mynnu bod pob un o adrannau'r llywodraeth yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol:

- Datganiad blynyddol ynghylch cynghorwyr arbennig (a gyflwynir gerbron Senedd y DU) sy'n amlinellu eu niferoedd, eu henwau a'u bandiau cyflog, y Gweinidog a'u penododd a'r bil cyflogau cyffredinol ar eu cyfer;

---

[8] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Standard Note: The Ministerial Code***, SN/PC/03750, 13 Medi 2010
[9] Swyddfa'r Cabinet, ***Ministerial Code***, Mai 2010, paragraff 1.5

- Manylion y rhoddion gwerth dros £140 a dderbyniwyd ac a roddwyd gan Weinidogion, i'w cyhoeddi o leiaf bob chwarter;
- Manylion y lletygarwch a dderbyniodd Gweinidogion yn rhinwedd eu swydd fel Gweinidog, i'w cyhoeddi o leiaf bob chwarter;
- Manylion holl deithiau tramor Gweinidogion, i'w cyhoeddi o leiaf bob chwarter;
- Manylion cyfarfodydd allanol Gweinidogion, i'w cyhoeddi o leiaf bob chwarter.

Caiff gwybodaeth am yr uchod ei chyhoeddi ar **wefan Number 10**.

Mae'r Cod hefyd yn mynnu bod buddiannau preifat Gweinidogion yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, a chyhoeddir y wybodaeth hon ar **wefan Swyddfa'r Cabinet**.

### *3.2. Cynghorydd Annibynnol ar fuddiannau Gweinidogion*

Ers 2007, mae'r Prif Weinidog wedi penodi Cynghorydd Annibynnol ar fuddiannau Gweinidogion er mwyn ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Gweinidogion. Cyn hynny, ers 2006, roedd ymchwilio i honiadau o'r fath wedi bod yn un o gyfrifoldebau Swyddog y Tŷ, sef y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, dim ond y Prif Weinidog ar y pryd all awdurdodi ymchwiliadau i achosion honedig o dorri'r Cod.

Rhaid i'r Cynghorydd Annibynnol gyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Rhestr o Fuddiannau Gweinidogion a gyflwynir gerbron Senedd y DU. Mae'r **adroddiad blynyddol diweddaraf yn ymwneud â 2010-11**, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011. Y Cynghorydd Annibynnol cyfredol ar fuddiannau Gweinidogion yw Syr Alex Allen, a gymerodd yr awenau oddi wrth Syr Phillip Mawer ym mis Ionawr 2012.[10]

Yn ddiweddar, cododd y mater ynghylch a ddylai'r Cynghorydd Annibynnol gael y pŵer i gychwyn ei ymchwiliadau ei hun, yn dilyn penderfyniad y Prif Weinidog i beidio â chyfeirio at y Cynghorydd Annibynnol ddau honiad ynghylch achosion honedig o dorri'r Cod Gweinidogion.

Ym mis Hydref 2011, codwyd cwestiynau ynghylch yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar y pryd, sef y Gwir Anrhydeddus Liam Fox AS, a rôl Adam Werritty a fu'n byw gydag ef ac a oedd yn gyfaill ac yn lobïwr iddo.[11] Er i'r Prif Weinidog ofyn i ysgrifennydd y cabinet, Syr Gus O'Donnell, archwilio canfyddiadau ymchwiliad mewnol y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r mater,[12] ni chyfeiriodd y mater at y

---

[10] Ibid., tudalen 12
[11] Mae rhagor o wybodaeth gefndir am yr honiadau yn erbyn Liam Fox ar gael gan y BBC, ***Defence Secretary Liam Fox quits***, 14 Hydref 2011
[12] Cyhoeddwyd yr **adroddiad** hwn yn nes ymlaen ym mis Hydref 2011 ar wefan Swyddfa'r Cabinet.

Cynghorydd Annibynnol.[13] Cafodd penderfyniad y Prif Weinidog ei feirniadu gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, Syr Christopher Kelly, a ddywedodd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus ar 6 Mawrth 2012:

> On this occasion, I think [the Independent Adviser] should have been employed. Indeed, I think it was almost certainly a breach of the ministerial code that he was not employed.
>
> The view of the committee [on standards in public life] is that there is advantage in this post existing and if it is going to exist, it has to be used in the way that was envisaged. Just like the parliamentary commissioner [on standards], the adviser should be able to initiate inquiries of their own where there is a prima facie case to investigate, whereas at the moment he is only able to do so at the request of the prime minister.[14]

Ar 30 Ebrill 2012, caniatawyd i'r Blaid Lafur ofyn cwestiwn brys yn Nhŷ'r Cyffredin ynghylch pam nad oedd y Prif Weinidog wedi cyfeirio at y Cynghorydd Annibynnol honiadau yn erbyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Jeremy Hunt AS, ynghylch ei rôl wrth ystyried cynnig News Corporation i reoli BSkyB. Ar y pryd, nododd y Prif Weinidog ei fod yn barod i orchymyn ymchwiliad gan Whitehall i'r modd yr oedd Mr Hunt wedi goruchwylio'r cynnig am BSkyB, ond y byddai'n aros tan ar ôl ymddangosiad Mr Hunt gerbron ymchwiliad Leveson ar safonau'r wasg ar 31 Mai 2012 cyn gwneud hynny.[15]

Ar 13 Mehefin 2012, ysgrifennodd y Prif Weinidog at Syr Alex Allen yn nodi fel a ganlyn:

> I have decided not to refer Jeremy Hunt to you as I am satisfied that the relevant information about this issue has been established and I am content that he did not break the ministerial code.[16]

Mewn ymateb i hynny, ysgrifennodd Syr Alex at y Prif Weinidog, gan ddweud:

> The fact that there is an on-going judicial inquiry probing and taking evidence under oath means that I do not believe I could usefully add to the facts in this case though I remain available should circumstances change or new evidence emerge.[17]

Mewn dadl ar ddiwrnod y gwrthbleidiau ar yr un diwrnod, cyflwynodd Harriet Harman AS gynnig a oedd yn mynnu y dylid cyfeirio achos Jeremy Hunt at y Cynghorydd Annibynnol at y diben canlynol:

> to investigate whether he breached paragraph 1.2c (giving accurate and truthful information to Parliament) and paragraph 3.3 (responsibility for his special adviser) of the Ministerial Code.[18]

Gwrthodwyd y cynnig o 252 o bleidleisiau i 290.

---

[13] The Guardian, ***Liam Fox: PM asks cabinet secretary to look at allegations***, 8 Hydref 2011
[14] The Guardian, ***Cameron 'almost certainly' breached ministerial code over Werritty affair***, 6 Mawrth 2012
[15] The Telegraph, ***David Cameron to face Jeremy Hunt questions in Commons this afternoon***, 30 Ebrill 2012
[16] Number 10, ***Prime Minister's letter to Sir Alex Allen***, 13 Mehefin 2012
[17] Number 10, ***Sir Alex Allen's letter to the Prime Minister***, 13 Mehefin 2012
[18] ***HC Deb 13 June 2012 c339***

Yn ystod y ddadl, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, Bernard Jenkin AS:

> … the independent adviser should be empowered to instigate his own investigations … that is exactly how regulators work, and it is how our own Parliamentary Commissioner for Standards operates. He would command little public confidence if he could not instigate his own investigations. The Committee on Standards in Public Life has recommended the same thing for the Prime Minister's adviser on ministerial interests, on more than one occasion. The mystery is why these recommendations have not been implemented, and why the previous Labour Government did not accept them.[19]

### *3.3. Galwadau am waith diwygio*

Yn ddiweddar, mae materion sy'n ymwneud â Chod Gweinidogion y DU wedi bod yn destun argymhellion a wnaed gan ddau Bwyllgor Dethol yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ddechrau 2012, cynhaliodd **Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol** Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i gynigion Llywodraeth y DU i sefydlu cofrestr statudol ar gyfer lobïwyr. Cyhoeddwyd yr adroddiad dilynol ar 13 Gorffennaf 2012. Yn ogystal â gwneud argymhellion ynghylch cynigion Llywodraeth y DU, roedd yr adroddiad hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth y DU gymryd camau ar unwaith i wella'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn unol â'r Cod Gweinidogion. Yn benodol, roedd yn galw ar Lywodraeth y DU i:

- gyhoeddi gwybodaeth am gyfarfodydd Gweinidogion cyn pen mis ar ôl y mis y cynhaliwyd y cyfarfod ynddo (yn hytrach na'r arfer cyfredol o gyhoeddi gwybodaeth bob chwarter);
- safoni fformat data ynghylch cyfarfodydd, gyda'r bwriad o gyhoeddi pob cyfarfod Gweinidogion a phob cyfarfod swyddogol ar un wefan, yn hytrach nag ar 24 o wefannau gwahanol y Llywodraeth;
- gwella lefel y manylder mewn datgeliadau ynghylch cyfarfodydd er mwyn sicrhau y caiff union bwnc y cyfarfod ei ddatgelu, yn hytrach na nodi termau aneglur megis 'trafodaeth gyffredinol';
- cyhoeddi, lle bo'n berthnasol, rif y cwmni neu'r elusen ar gyfer unrhyw gorff sy'n cyfarfod â Gweinidogion neu swyddogion.[20]

Cafodd argymhellion ynghylch y modd yr ymchwilir i achosion honedig o dorri'r Cod Gweinidogion eu cynnwys yn adroddiad y **Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus** ar reolau penodiadau busnes, a gyhoeddwyd ar 25 Gorffennaf 2012. Roedd yr adroddiad yn galw am i Lywodraeth y DU ddeddfu er mwyn sefydlu trefn statudol o reoleiddio moeseg ar gyfer busnesau, gyda chod ymddygiad a chosbau

---

[19] ***HC Deb 13 June 2012 c365***
[20] Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin, ***2nd Report: Introducing a Statutory Register of Lobbyists***, 13 Gorffennaf 2012

statudol y gellir eu gorfodi, a fyddai'n cael eu goruchwylio gan Gomisiynydd moeseg annibynnol.[21]

Yn ogystal, roedd y Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiynydd newydd gymryd rôl Cynghorydd Annibynnol y Prif Weinidog ar fuddiannau Gweinidogion, a galwodd am i'r Comisiynydd ei hun gael y pŵer i gychwyn ymchwiliadau i'r Cod Gweinidogion (oherwydd y Prif Weinidog sydd â'r pŵer i wneud hynny ar hyn o bryd).[22]

Ar ôl y ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin ynghylch adroddiad y Pwyllgor, nododd Syr Christopher Kelly, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus[23]:

> My Committee continue to believe that the Adviser should have the power to initiate his own inquiries, not least because this would help depoliticise the decision to refer an allegation to the Adviser.
>
> The Ministerial Code and decisions relating to Ministers following any investigation must clearly be a matter for the Prime Minister, but we believe that strengthening the independence of the Adviser in this way would enable allegations about Ministers' conduct to be seen to be handled fairly and provide greater assurance to the public about standards in public life.[24]

Mae'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn cynnal adolygiad ar hyn o bryd ac yn edrych ar arfer gorau o ran hybu safonau moesegol uchel, ac mae'n bwriadu adrodd ynghylch ei ganfyddiadau yn nes ymlaen yn 2012.

---

[21] Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, ***Press Release: MPs propose a new system of regulation***, 25 Gorffennaf 2012

[22] Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus, ***Press Release: MPs propose a new system of regulation***, 25 Gorffennaf 2012

[23] Mae'r **Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus** yn gorff cynghori annibynnol ar gyfer Llywodraeth y DU, sy'n monitro pob mater yn ymwneud â safonau mewn bywyd cyhoeddus ac sy'n gwneud argymhellion yn eu cylch.

[24] Y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, ***Press Notice: Sir Christopher Kelly – Adviser should have power to instigate his own inquiries***, 17 Gorffennaf 2012

## 4. Cod Gweinidogion yr Alban

Fel arfer, caiff Cod Gweinidogion yr Alban ei adolygu ar ddechrau pob tymor Seneddol newydd. Cyhoeddwyd y **fersiwn ddiweddaraf** gan Brif Weinidog yr Alban ar 13 Rhagfyr 2011. Fel yn achos Cod Gweinidogion y DU a Chod Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog yr Alban yw'r un i farnu yn y pen draw beth yw'r safonau o ran ymddygiad a ddisgwylir gan Weinidog a beth yw'r canlyniadau priodol pan eir yn groes i'r safonau hynny, ac ni all Gweinidogion barhau yn eu swyddi os nad oes gan y Prif Weinidog ffydd ynddynt.[25]

Yn yr un modd â Chod y DU a Chod Cymru, mae Cod yr Alban yn anstatudol ac mae'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Egwyddorion cyffredinol ynghylch ymddygiad Gweinidogion;
- Y modd y dylai Gweinidogion ymddwyn yng nghyswllt y canlynol:
    - cyflawni busnes y llywodraeth;
    - ymdrin â Senedd yr Alban;
    - eu cyfrifoldebau (gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr arbennig);
    - buddiannau preifat Gweinidogion;
    - cyflwyno polisïau;
    - penodiadau;
    - rhyngweithio â gweision sifil;
    - buddiannau'n ymwneud â'u hetholaeth a'u plaid wleidyddol;
    - ymgysylltu â materion cynllunio;
- Rheolau'n ymwneud â threfniadau teithio.

### *4.1. Gwybodaeth a gaiff ei chyhoeddi*

Mae Cod Gweinidogion yr Alban yn mynnu bod y dogfennau canlynol yn cael eu cyhoeddi:

- Manylion y **cynghorwyr arbennig** a benodwyd i Lywodraeth yr Alban, a disgrifiad o'u rôl;
- Manylion y **dulliau gweithredu y mae Gweinidogion yr Alban yn eu ffafrio**, sy'n cynnwys manylion cyswllt eu swyddfeydd preifat a manylion ynghylch y dulliau gweithredu y maent yn eu ffafrio ar gyfer paratoi a thrin eu papurau briffio, eu hareithiau a'u gohebiaeth;

[25] Llywodraeth yr Alban, ***Scottish Ministerial Code***, Rhagfyr 2011, paragraff 1.5

- Manylion y **digwyddiadau a'r cyfarfodydd** y mae holl Weinidogion yr Alban wedi eu mynychu yn ystod mis penodol, i'w cyhoeddi cyn pen tri mis ar ôl hynny.
- Manylion y **cyfarfodydd y mae Gweinidogion yr Alban wedi eu mynychu gyda pherchnogion, golygyddion a swyddogion gweithredol ym maes y cyfryngau**, i'w cyhoeddi cyn pen tri mis ar ôl hynny.
- Manylion yr holl **deithiau mewn car, ymweliadau tramor a theithiau nad ydynt yn rhai tramor** yr ymgymerodd Gweinidogion yr Alban â hwy.

### *4.2. Cynghorwyr Annibynnol ar God Gweinidogion yr Alban*

Ers 2008, mae Prif Weinidog yr Alban wedi penodi Cynghorwyr Annibynnol i ystyried y modd y caiff Cod Gweinidogion yr Alban ei weithredu, er mwyn darparu cyngor tebyg i'r cyngor a roddir gan y Cynghorwyr Annibynnol ar fuddiannau Gweinidogion a benodir gan y Prif Weinidog ar lefel y DU.

Ers 2008, mae Cynghorwyr Annibynnol yr Alban wedi cyhoeddi cyfanswm o bum adroddiad sy'n ymwneud â'r honiadau canlynol:

- Yr honiad i Senedd yr Alban gael ei chamarwain gan Brif Weinidog yr Alban yng nghyswllt **dyfodol Cyngor Rhyng-ffydd yr Alban** (Mawrth 2009).
- Yr honiad i Senedd yr Alban gael ei chamarwain gan Brif Weinidog yr Alban yng nghyswllt **carcharorion a oedd wedi dianc o Ystâd Carchar Agored yr Alban** (Awst 2009).
- Yr honiad i Senedd yr Alban gael ei chamarwain gan Brif Weinidog yr Alban yng nghyswllt **ymrwymiadau Llywodraeth yr Alban ynghylch maint dosbarthiadau** mewn ysgolion (Ionawr 2010);
- Rôl Gweinidogion yr Alban o ran **enwebu Brian Souter i'w urddo'n farchog** (Tachwedd 2011);
- Prif Weinidog yr Alban yn croesawu **gwesteion personol i Bute House** (Mehefin 2012).

Y cynghorwyr presennol yw'r cyn-Arglwydd Adfocad, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Fraser o Carmyllie, Cwnsler y Frenhines, a'r Gwir Anrhydeddus Fonesig Elish Angiolini, Cwnsler y Frenhines, DBE, a gymerodd le'r cyn-Lywyddion, sef y Gwir Anrhydeddus George Reid a'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Steel o Aikwood ym mis Awst 2011.

## 5. Cod Gweinidogion Gogledd Iwerddon

Mae *Deddf Gogledd Iwerddon 1998*[26] (fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Gogledd Iwerddon (Cytundeb St Andrews) 2006)*[27], yn darparu ar gyfer cyhoeddi Cod Gweinidogion sy'n egluro'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau Gweinidogion ac Is-weinidogion Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o **God Gweinidogion Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon** ar gael ar wefan Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'r Cod Gweinidogion yn cynnwys y Cod Ymddygiad canlynol y mae'n rhaid i Weinidogion Gogledd Iwerddon gydymffurfio ag ef:

> The Ministerial Code of Conduct referred to at (g) above is as follows.
>
> Ministers must at all times:-
>
> (i) observe the highest standards of propriety and regularity involving impartiality, integrity and objectivity in relationship to the stewardship of public funds;
> (ii) be accountable to users of services, the community and, through the Assembly, for the activities within their responsibilities, their stewardship of public funds and the extent to which key performance targets and objectives have been met;
> (iii) ensure that all reasonable requests for information from the Assembly, users of services and individual citizens are complied with; and that departments and their staff conduct their dealings with the public in an open and responsible way;
> (iv) follow the seven principles of public life set out by the Committee on Standards in Public Life;
> (v) comply with this Code and with rules relating to the use of public funds;
> (vi) operate in a way conducive to promoting good community relations and equality of treatment;
> (vii) not use information gained in the course of their service for personal gain; nor seek to use the opportunity of public service to promote their private interests;
> (viii) ensure they comply with any rules on the acceptance of gifts and hospitality that might be offered; and
> (ix) declare any personal or business interests which may conflict with their responsibilities.[28]

Mae'r Cod hefyd yn mynnu bod Cynulliad Gogledd Iwerddon yn cadw cofrestr o fuddiannau, lle rhestrir unrhyw fuddiannau ariannol uniongyrchol neu anuniongyrchol y gallai fod yn rhesymol i aelodau'r cyhoedd feddwl y gallent ddylanwadu ar farn y Gweinidogion.[29] Fodd bynnag, nid yw'r Cod yn mynnu bod cofrestr o'r fath yn cael ei chyhoeddi.

---

[26] ***Deddf Gogledd Iwerddon 1998*** (Pennod 47)
[27] ***Deddf Gogledd Iwerddon (Cytundeb St Andrews) 2006*** (Pennod 53)
[28] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ***Ministerial Code***, paragraff 1.6
[29] Ibid.

Mae'r Cod hefyd yn ymdrin â strwythurau a swyddogaethau'r Pwyllgor Gweithredol (Cabinet Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) a'r modd y mae Gweinidogion Gogledd Iwerddon yn rhyngweithio â Chyngor Gweinidogion y Gogledd a'r De a'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.